Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl388

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd i Pride Aberhonddu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Pride Aberhonddu 2025, ar 26 Gorffennaf, yn ddathliad bywiog o'r gymuned LHDTCRhA+, sy'n hyrwyddo cynhwysiant, amrywiaeth a chydraddoldeb.
Bydd y digwyddiad yn uno preswylwyr lleol, cynghreiriaid, a sefydliadau i ddathlu hunaniaethau LHDTCRhA+ drwy weithgareddau, perfformiadau ac ymgysylltu.
Mae gan Pride Aberhonddu wefan benodol sy'n darparu adnoddau, manylion am y digwyddiad, a dolen uniongyrchol i borthol Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer adrodd am droseddau casineb.
Mewn ymateb i iaith casineb sy'n cynyddu, mae'r prosiect hwn yn hollbwysig ar gyfer meithrin perthyn, gan gynnig cymorth, ac annog adrodd am droseddau casineb.
Mae Pride Aberhonddu 2025 yn anelu i greu cymuned fwy diogel a chynhwysol a chryfhau cysylltiadau rhwng y gymuned LHDTCRhA+ ac awdurdodau lleol.

Mae'r digwyddiad yn cefnogi blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu o Atal Niwed.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod rhodd o £500.00 yn cael ei roi i gefnogi gweithgareddau'r digwyddiad. Daw'r arian o'r gyllideb Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 02/06/2025**